**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Ysgolion

**Committee Room 3A - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 18 Gorffennaf 2018 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd M Sykes (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| M Durke | S J Gallagher | L S Gibbard |
| D W Helliwell | S M Jones | |

| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |
|---|---|---|
| D Anderson-Thomas | A Roberts | |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Jen Raynor | Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Nick Williams | Prif Swyddog Addysg |
| Mark Sheridan | Pennaeth y Gwasanaeth Dysgwyr Diamddiffyn |
| Pam Cole | Pennaeth yr Uned Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig (EMAU) |
| Michelle Roberts | Swyddog Craffu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd(wy): C Anderson, A M Day, B Hopkins, L James, L R Jones, M A Langstone, H M Morris a/ac L J Tyler-Lloyd

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Cysylltiad personol: Y cynghorwyr Susan Jones, David Helliwell, Steven Gallagher a Louise Gibbard

2 **Nodiadau a Llythyrau Cynullyddion**

Derbyniwyd y llythyrau a'r nodiadau gan y panel

3 **Craffu Cyn Penderfynu ar Strwythur a Chyflwyno'r Uned Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig (EMAU) yn y dyfodol**

Diolchodd y panel i'r Cynghorydd Raynor, Nick Williams, Mark Sheridan a Pam Cole am fod yn bresennol ac ateb eu cwestiynau ar strwythur a chyflwyno'r Gwasanaeth Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig (EMAU) yn y dyfodol.

Mae'r panel yn cefnogi'r penderfyniad arfaethedig ac yn cytuno y dylai dewis 2 gael ei ffafrio ar gyfer dyfodol y gwasanaeth. Y gred yw y bydd y model hwn, gan ystyried yr amodau ariannol cyfredol, yn darparu'r cydbwysedd gorau drwy gadw tîm canolog bach ac yna ddatganoli gweddill yr arian i ysgolion. O ystyried hyn, hoffai'r panel bwysleisio'r pwyntiau canlynol:

- Bydd yn rhaid i'r awdurdod lleol a'r ysgolion unigol fonitro effaith hyn ar gyflawniad disgyblion yn agos.
- Bydd yn rhaid i'r awdurdod lleol a'r ysgolion ddatblygu perthnasoedd gweithio ehangach â chymunedau lleol, grwpiau cymunedol a'r brifysgol, er enghraifft, yn y dyfodol er mwyn darparu cefnogaeth a llenwi rhai o'r bylchau iaith sydd wedi'u nodi.
- Mae angen cwblhau archwiliad o'r sefydliadau hynny sydd ar hyn o bryd yn darparu cefnogaeth a/neu'n derbyn grant ar gyfer cefnogi lleiafrifoedd ethnig. Gellir defnyddio hwn wedyn i feithrin a datblygu gwydnwch a chefnogaeth well ar gyfer y disgyblion y mae eu hangen arnynt.
- Mae angen cydnabod bod cefnogaeth yn cynnwys mwy nag anghenion ieithyddol yn unig.
- Mae pryderon gan y pwyllgor ynglŷn â'r diffyg dealltwriaeth canfyddedig mae cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru wedi'i ddangos.
- Mae pryderon ynglŷn â'r effaith negyddol bosib ar brofiadau'n plant a'n pobl ifanc a'u hawliau fel y'u amlinellir yn y Mesur Plant a CCUHP. Gyda'n dealltwriaeth well o effaith tymor hir profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, mae'n rhaid mesur/monitro'r effaith (gadarnhaol neu negyddol) y tu hwnt i baramedrau cul yr hyn rydym yn ei fesur fel "cyrhaeddiad" ar hyn o bryd.
- Rydym yn falch o glywed bod ymagwedd debyg a fabwysiadwyd yng Nghaerdydd wrth roi gwasanaeth ar ffurf Dewis B ar waith wedi bod yn llwyddiannus.

Adroddir am farn y panel yng nghyfarfod y Cabinet ar 19 Gorffennaf 2018 gyda llythyr at Aelod y Cabinet i'w ddilyn

4 **Cynllun Gwaith 2018 - 2019.**

Derbyniwyd y rhaglen waith gan y panel

Daeth y cyfarfod i ben am 2.50 pm

The meeting ended at 2.50 pm

**Cadeirydd**